

Adroddiad Arolygu o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Practis Deintyddol Trallwn, Bwrdd
Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Dyddiad yr arolygiad: 18 Chwefror 2025

Dyddiad cyhoeddi: 21 Mai 2025



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	8
	• Ansawdd Profiad y Claf	8
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	11
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	15
4.	Y camau nesaf	18
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	19
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	20
	Atodiad C - Cynllun gwella	21

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Trallwn, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ar 18 Chwefror 2025.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau arolygydd gofal iechyd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn ar weithio i'r gwasanaeth i ni. Cwblhawyd cyfanswm o dri holiadur gan gleifion neu eu gofalwyr a chwblhawyd chwech gan aelodau o'r staff. Oherwydd y nifer isel o ymatebion, prin yw'r adborth a'r sylwadau sy'n ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Roedd yr adborth a gafwyd gan y cleifion yn gadarnhaol mewn perthynas â'r gofal a'r gwasanaethau a ddarperir gan Bractis Deintyddol Trallwn. Gwelsom fod y staff yn gyfeillgar ac yn gwrtais ac fe'u gwelsom yn trin y cleifion ag urddas a pharch. Roedd amrywiaeth addas o wybodaeth gofal iechyd ar gael ym mhob rhan o'r practis, gyda lefel foddhaol i'w gweld yn ardaloedd y dderbynfa.

Roedd system briodol ar waith yn y practis i reoli apwyntiadau brys ac roedd slotiau'n cael eu cynnwys yn amserlenni'r deintyddion. Gellid trefnu apwyntiadau dros y ffôn neu wyneb yn wyneb ac roedd prosesau cyfathrebu priodol ar waith rhwng y staff a'r cleifion.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd amrywiaeth eang o wybodaeth ddefnyddiol ar gael i'r cleifion
- Roedd y practis yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod y practis yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda a'i fod wedi'i addurno i safon dda. Roedd y deintyddfeydd yn lân, yn drefnus ac yn addas at y diben. Roedd ardal ddihalogi benodedig â systemau addas ar gyfer dihalogi offer deintyddol aml dro. Gwelsom fod yr holl gyfarpar clinigol yn ddiogel ac mewn cyflwr da. Roedd cofnodion clinigol yn cael eu cynnal i safon addas. Fodd bynnag, gwnaethom ddatrys un pryder ar ddiwrnod yr arolygiad er mwyn sicrhau trefniadau cadarn ar gyfer cofnodi atgyfeiriadau cleifion.

Roedd gan y practis weithdrefnau diogelu priodol ar waith i amddiffyn plant ac oedolion, a rhoddodd y staff wybod i ni y byddent yn teimlo'n hyderus yn codi unrhyw bryderon diogelu.

Roedd polisïau a gweithdrefnau addas i reoli meddyginiaethau. Gwelsom fod gwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal ar y cyfarpar brys ac roedd pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant ar ddulliau adfywio brys.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y practis yn lân ac yn addas at y diben

- Roedd tystiolaeth bod gwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal o'r cyfarpar diogelwch tân.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod y practis yn cael ei arwain yn dda a bod strwythur rheoli clir ar waith. Roedd rheolwr y practis yn ymrwymedig i ddarparu gofal cleifion o safon uchel gyda chymorth y corff corfforaethol.

Gwelsom fod cofnodion y staff yn gyflawn ac yn cael eu cynnal yn dda, ac roedd tystiolaeth bod y staff wedi cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf yn unol â'r gofynion rheoliadol. Dywedodd pob aelod o'r staff a ymatebodd i holiadur staff AGIC fod ganddynt gydbwysedd da rhwng bywyd a gwaith. Gwelsom dystiolaeth bod y staff yn cael eu sefydlu a bod arfarniadau staff yn cael eu cynnal bob blwyddyn.

Roedd proses foddhaol ar waith yn y practis i gasglu adborth gan gleifion ac roedd gweithdrefnau cadarn ar gyfer sicrhau gwelliannau parhaus drwy archwiliadau. Roedd gan y practis gydberthynas â gwasanaethau gofal iechyd lleol eraill.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y lefelau cydymffurfiaeth â hyfforddiant o safon dda
- Gwelsom amgylchedd gwaith cefnogol ac roedd yr holl adborth gan y staff yn gadarnhaol.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan gleifion

Dosbarthodd AGIC holiadur er mwyn casglu barn cleifion am y gofal a ddarperir gan Bractis Deintyddol Trallwn. Cawsom gyfanswm o dri ymateb gan gleifion yn y lleoliad hwn ac, ar y cyfan, roedd yr ymatebion a gafwyd yn gadarnhaol. Dywedodd un claf wrthym:

“Mae pob aelod o'r staff, yn enwedig staff y dderbynfa, bob amser yn gyfeillgar iawn ac yn mynd y tu hwnt i'r disgwyliadau. Hapus iawn.”

Yn canolbwyntio ar yr unigolyn

Hybu iechyd a gwybodaeth i gleifion

Gwelsom fod lefel foddhaol o wybodaeth a chynghor ar gael i'r cleifion er mwyn cynnal ffordd iach o fyw. Roedd y dogfennau yn cynnwys gwybodaeth am gamddefnyddio alcohol neu sylweddau, iechyd deintyddol pediatriig yn ogystal â gwybodaeth am sepsis. Roedd datganiad o ddiben a thaflen wybodaeth i gleifion y practis ar gael i'r cleifion eu gweld yn Gymraeg ac yn Saesneg. Roedd y ffioedd ar gyfer gwasanaethau'r GIG a gwasanaethau preifat yn cael eu harddangos yn glir yn ardaloedd aros y cleifion. Roedd enwau'r ymarferwyr a'u rhifau cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi'u harddangos. Roedd oriau agor y practis a manylion cyswllt mewn argyfwng ar gael i'r cleifion ger y drws ffrynt.

Gofal urddasol a pharchus

Gwelsom fod y practis yn darparu gofal urddasol a pharchus i'r cleifion drwy gydol eu taith fel claf. Roedd unrhyw gleifion a oedd yn dymuno cael sgwrs gyfrinachol â'r staff yn cael cynnig defnyddio ystafell ochr er mwyn atal pobl eraill rhag clywed eu sgwrsiau. Roedd y dderbynfa a'r ardal aros wedi'u huno, a dywedodd y staff wrthym nad oeddent yn ailadrodd gwybodaeth gyfrinachol dros y ffôn. Roedd ffenestri barugog yn yr ystafelloedd clinigol ar y llawr gwaelod a drysau solet er mwyn sicrhau na ellid gweld y cleifion. Roedd ffenestr fach ar ddrws un o'r deintyddfeydd, ond ni fyddai unrhyw gleifion yn cerdded heibio'r ardal hon o'r practis. Roedd y staff yn llofnodi copi o'r polisi cyfrinachedd cleifion i gadarnhau eu bod wedi darllen a deall eu cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelu gwybodaeth cleifion. Gwelsom fod y Naw Egwyddor a baratowyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi'u harddangos yn y dderbynfa.

Amserol

Gofal amserol

Gwelsom fod system briodol ar waith i reoli amser y clinigwyr yn effeithiol ac i sicrhau y gall y cleifion gael y gofal sydd ei angen arnynt mewn modd amserol. Fodd bynnag, roedd adborth rhai o'r cleifion yn nodi eu bod yn ei chael hi'n anodd trefnu apwyntiad y GIG pan oedd angen un arnynt. Dywedodd un claf wrthym:

“Mae rhestr aros hir am apwyntiadau cyffredinol.”

Mae'r sylw hwn yn cyd-fynd â'r adborth a gawsom gan y staff mewn perthynas ag argaeledd gwasanaethau'r GIG y maent yn eu darparu. Dywedodd y staff wrthym fod yr amseroedd aros ar gyfer triniaethau'r GIG yn hirach nag yr hoffent gan fod llai o gapasiti. Er hyn, nodwyd fod y practis wedi cydnabod y materion hyn o ran capasiti a'i fod wrthi'n recriwtio. Ymunodd clinigydd newydd â'r practis ddiwrnod cyn yr arolygiad ac roedd disgwyl i dri aelod newydd arall o staff ddechrau gweithio o fewn y chwe wythnos nesaf. Rhagwelwyd y byddai'n rhaid i gleifion aros llai o amser o ganlyniad i hyn. Ar y cyfan, gwelsom fod y staff yn darparu gwasanaeth cystal ag y gallent o dan amgylchiadau heriol a'u bod yn ymateb i anghenion eu cleifion.

Byddai cleifion yn trefnu apwyntiadau dros y ffôn neu wyneb yn wyneb yn dilyn eu triniaethau. Dywedodd y staff wrthym mai anaml y byddent yn rhedeg yn hwyr o ran apwyntiadau. Fodd bynnag, pe na fyddai apwyntiadau yn rhedeg yn unol â'r amser a drefnwyd, byddai'r clinigwyr yn ffonio'r dderbynfa i sicrhau bod y cleifion yn cael gwybod am unrhyw oedi. Lle y bo'n berthnasol, byddai'r cleifion hefyd yn cael gwybod am achosion o oedi wrth gyrraedd ac yn cael cynnig apwyntiadau amgen.

Gwelsom sut roedd y cleifion yn cael eu brysbennu dros y ffôn er mwyn sicrhau bod y rhai â'r anghenion mwyaf dybryd yn cael eu blaenoriaethu. Byddai staff y dderbynfa yn ymgynghori â chlinigydd fel rhan o'r broses frysbennu dros y ffôn, yn ôl y gofyn. Cadarnhaodd y staff fod y practis yn cymryd rhan yng ngwasanaeth 111 y GIG i drin apwyntiadau brys y GIG yn ardal y bwrdd iechyd. Gwelsom hefyd fod slotiau yn y dyddiadur bob dydd ar gyfer apwyntiadau brys.

Dywedodd y staff wrthym fod apwyntiadau yn cael eu trefnu yn unol ag argaeledd y cleifion lle bynnag y bo'n bosibl, gan gynnwys trefniadau i drin cleifion pediatrig y tu allan i oriau ysgol.

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Gwelsom fod trefniadau cefnogol ar waith er mwyn sicrhau bod dulliau cyfathrebu effeithiol rhwng y clinigwyr a'r cleifion. Roedd Language Line yn cael ei ddefnyddio, lle y bo angen, i gyfathrebu â chleifion. Roedd dogfennau ar gael mewn fformatau gwahanol, gyda dogfennau mwy arbenigol yn cael eu darparu ar gais.

Gwelsom dystiolaeth fod y practis yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg â chleifion. Roedd dogfennaeth ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg yn y canllaw i gleifion yn y dderbynfa. Roedd posteri a deunyddiau eraill hefyd ar gael yn ddwyieithog. Rhoddodd y staff wybod i ni nad oeddent wedi cael llawer o gymorth gan y bwrdd iechyd lleol i weithredu'r Cynnig Rhagweithiol, ond y byddent yn parhau i ymdrechu i'w weithredu.

Hawliau a chydraddoldeb

Gwelsom dystiolaeth bod ymdrechion gweithredol ar waith i gefnogi hawliau ac i drin unigolion yn gyfartal. Roedd polisïau addas yn nodi sut roedd y practis yn cynnal hawliau'r cleifion a'r staff. Gwelsom fod y staff yn cwblhau hyfforddiant penodol ar atal achosion o wahaniaethu ac roedd posteri o amgylch y practis yn nodi na fyddai'n goddef unrhyw fath o aflonyddu.

Gwnaethom nodi bod asesiadau risg yn cael eu cynnal i'r aelodau o staff sy'n defnyddio sgriniau arddangos, a bod newidiadau wedi cael eu gwneud i'r amgylchedd fel addasiad rhesymol, lle y bo angen. Nodwyd gennym fod addasiadau ychwanegol wedi'u gwneud ar gyfer y cyflogeion hynny a oedd yn dymuno gweddio mewn ardal dawel. Roedd cleifion ag unrhyw anghenion ychwanegol yn cael cymorth penodol i ddefnyddio'r gwasanaeth, a oedd yn cynnwys cynlluniau gwagio'r adeilad a help i fynd i mewn i'r adeilad.

Roedd hawliau'r cleifion yn cael eu cynnal ymhellach drwy ganiatáu iddynt ddewis y rhagenwau a'r enwau a ffeirir ganddynt yn eu cofnodion, ac roedd nodyn yn cael ei roi yn eu ffeil er mwyn sicrhau bod pob aelod o'r staff yn ymwybodol o'r dewisiadau hyn.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli risg

Gwelsom fod y practis mewn cyflwr da yn fewnol, a'i fod yn cael ei gadw i safon dda er mwyn darparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion. Roedd y practis wedi'i drefnu dros ddau lawr, gyda deintyddfeydd ac ardaloedd aros o faint priodol ar gyfer nifer y cleifion. Roedd dwy ddeintyddfa wedi cael eu hadnewyddu'n ddiweddar a hynny i safon uchel. Dywedodd pob aelod o'r staff a ymatebodd i holiadur AGIC wrthym fod y cyfleusterau a oedd ar gael iddynt yn briodol ar gyfer cyflawni eu tasgau penodol. Dywedodd yr ymatebwyr hefyd eu bod yn teimlo bod yr amgylchedd yn briodol i'r cleifion gael y gofal sydd ei angen arnynt.

Roedd mynediad gwastad i'r llawr gwaelod ac i'r ddwy ddeintyddfa ar y llawr hwnnw er mwyn helpu'r rhai hynny ag anawsterau symudedd. Clywsom y llinellau ffôn yn gweithio'n effeithiol a gwelsom fod ardaloedd newid addas â loceri ar gael i'r staff. Gwelsom fod toiledau'r staff a thoiledau'r cleifion yn lân ac yn cynnwys digon o gyfarpar.

Roedd cyfarpar deintyddol y practis mewn cyflwr da ac roedd digon o eitemau ar gael i allu eu dihalogi'n effeithiol ar ôl eu defnyddio. Roedd eitemau untro yn cael eu defnyddio lle y bo'n briodol.

Roedd polisïau a gweithdrefnau addas ar waith i gefnogi iechyd, diogelwch a llesiant y cleifion a'r staff. Roedd asesiadau risg diweddar wedi cael eu cynnal ar gyfer diogelwch tân ac iechyd a diogelwch ac roeddent yn gynhwysfawr. Gwelsom dystiolaeth bod gwiriadau yn cael eu cynnal gan gontractwyr i sicrhau diogelwch nwy a thrydan. Roedd Profion Dyfeisiau Cludadwy wedi cael eu cynnal yn ddiweddar hefyd. Dywedodd pawb a ymatebodd i holiadur staff AGIC fod y practis yn eu hannog i roi gwybod am gamgymeriadau a fu bron â digwydd neu ddigwyddiadau.

Wrth edrych ar y cyfarpar diogelwch tân a'r wybodaeth am ddiogelwch tân, gwelsom fod trefniadau cadarn a chynhwysfawr ar waith. Roedd y trefniadau hyn yn cynnwys cynnal a chadw'r cyfarpar diogelwch tân yn rheolaidd ac arddangos arwyddion diogelwch tân a dim smygu yn glir.

Roedd tystysgrif Yswiriant Atebolrwydd Cyflogwr y practis wedi'i harddangos yn ardal aros y cleifion ac roedd poster yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch wedi'i arddangos yn yr ystafell staff.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Gwelsom fod polisïau a gweithdrefnau Atal a Rheoli Heintiau priodol ar waith i gynnal lefel dda o lendid ac amgylchedd gwaith diogel. Dywedodd y rhai a ymatebodd i holiadur staff AGIC fod amserlenni glanhau ar waith er mwyn hyrwyddo gweithdrefnau glanhau rheolaidd ac effeithiol yn y practis. Gwelsom fod yr holl gyfarpar a'r amgylchedd yn cael eu cynnal a'u cadw'n foddhaol fel bod modd eu glanhau a'u dihalogi'n effeithiol.

Cadarnhaodd pob un a ymatebodd i holiadur staff AGIC fod y sefydliad yn gweithredu polisi atal a rheoli heintiau effeithiol. Dywedodd yr ymatebwyr wrthym hefyd fod amgylchedd y practis yn caniatáu arferion rheoli heintiau effeithiol.

Roedd gwasanaethau iechyd galwedigaethol ar gael i bob aelod o'r staff ac roedd asesiadau risg priodol ar waith i fonitro'r risg o niwed o ganlyniad i anafiadau a achosir gan offer miniog. Roedd cyfarpar diogelu personol ar gael fel mater o drefn i bob aelod o'r staff, ac roedd yr holl weithdrefnau ac arwyddion mewn perthynas â hylendid dwylo yn addas. Dywedodd pob un a ymatebodd i holiadur staff AGIC eu bod yn ymwybodol o'r cymorth iechyd galwedigaethol sydd ar gael iddynt. Hefyd, dywedodd yr ymatebwyr bod Cyfarpar Diogelu Personol priodol ar gael iddynt. Roedd yr holl drefniadau hyn yn golygu bod modd darparu gofal diogel i'r cleifion gan sicrhau diogelwch y staff ar yr un pryd.

Gwelsom fod mesurau addas ar waith i sicrhau bod cyfarpar aml dro yn cael ei ddihalogi a'i sterileiddio'n briodol yn ystafell ddihalogi'r practis. Gwelsom gofnodion priodol a oedd yn dangos bod gwiriadau dyddiol yn cael eu cynnal o gylchredau'r peiriant awtoclaf a bod amserlen o waith cynnal a chadw rheolaidd ar waith. Cadarnhaodd y cofnodion hyfforddiant y gwnaethom edrych arnynt fod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant boddhaol ar ddihalogi'r cyfarpar yn gywir.

Gwelsom fod y broses ar gyfer Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) yn foddhaol. Roedd holl wastraff y practis yn cael ei storio a'i waredu'n gywir drwy gontract gwaredu gwastraff addas.

Rheoli meddyginiaethau

Gwelsom fod y trefniadau sydd ar waith i reoli meddyginiaethau yn briodol. Roedd polisi addas ar waith ar gyfer trin, storio, defnyddio a gwaredu meddyginiaethau yn ddiogel. Gwelsom hefyd fod pad presgripsiwn y practis yn cael ei storio'n ddiogel. Roedd yr oergell a ddefnyddir i storio meddyginiaethau yn cael ei rheoli'n gywir ac roedd gwiriadau tymheredd yn cael eu cofnodi'n addas.

Gwelsom fod mesurau cynhwysfawr ar waith i sicrhau bod argyfyngau meddygol yn cael eu rheoli'n ddiogel ac yn effeithiol. Roedd cofnodion y staff yn dangos bod pob un ohonynt yn meddu ar gymwysterau boddhaol ym maes adfywio

cardiopwlmonaidd a bod nifer addas o'r staff wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf. Wrth archwilio'r cyfarpar brys, gwelsom fod yr holl eitemau yn bresennol, yn hawdd cael gafael arnynt ac o fewn eu dyddiadau defnyddio. Gwnaethom nodi bod gwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal o'r holl gyfarpar brys.

Diogelu plant ac oedolion

Roedd gweithdrefnau diogelu boddhaol a chyfredol ar waith i amddiffyn plant ac oedolion. Roedd y gweithdrefnau yn ystyried Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan, yn cynnwys manylion cyswllt gwasanaethau cymorth lleol ac yn nodi arweinydd diogelu penodedig ar gyfer y practis. Roedd y staff yn cael eu hannog i lawrlwytho ap Diogelu Cymru Gyfan ar eu ffonau symudol.

Roedd cofnodion hyfforddiant y staff a welsom yn dangos bod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant addas ar ddiogelu plant ac oedolion. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad yn hyderus i nodi unrhyw bryderon diogelu ac yn deall y gweithdrefnau diogelu gan ddweud eu bod yn teimlo y byddent yn cael eu cefnogi pe byddent yn codi pryder.

Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol

Gwelsom fod y dyfeisiau meddygol a'r cyfarpar clinigol yn ddiogel, mewn cyflwr da ac yn addas at y diben. Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer gwasanaethu'r holl gyfarpar ac ar gyfer ymateb yn gyflym i fethiant system cyfarpar. Gwelsom fod cyfarpar deintyddol aml dro yn cael ei ddefnyddio mewn modd sy'n hyrwyddo gofal diogel ac effeithiol.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn hyderus o ran defnyddio cyfarpar y practis, ac roedd y cofnodion hyfforddiant a welsom yn cadarnhau bod pob aelod o staff wedi cael hyfforddiant addas ar gyfer eu rolau. Dywedodd pob un a ymatebodd i holiadur staff AGIC fod ganddynt ddigon o ddeunyddiau, cyflenwadau a chyfarpar i gyflawni eu gwaith.

Roedd ffolder diogelu rhag ymbelydredd y practis yn gyfredol ac yn gynhwysfawr ac roedd y cyfarpar radiograffig yn cael ei reoli'n foddhaol ar y cyfan. Wrth edrych ar gofnodion y cleifion, gwelsom fod y nodiadau clinigol ar gyfer triniaethau radiograffig wedi cael eu cwblhau'n llawn. Nododd y clinigwyr fod y cleifion yn cael eu hysbysu'n briodol am risgiau a manteision ymbelydredd a gwelsom fod cysylltiadau ag ymbelydredd yn cael eu nodi'n gywir yng nghofnodion y cleifion. Nodwyd gennym ei bod hi'n hawdd cael gafael ar y rheolau lleol ym mhob deintyddfa. Roedd cofnodion hyfforddiant y staff yn dangos bod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant radiograffeg i lefel briodol.

Effeithiol

Gofal effeithiol

Gwelsom fod y staff yn asesu cleifion ac yn gwneud diagnosis o anghenion cleifion yn ddiogel. Roedd y cofnodion y gwnaethom edrych arnynt yn dangos bod triniaethau yn cael eu darparu'n unol ag anghenion clinigol, ac yn unol â chanllawiau proffesiynol, rheoliadol a statudol.

Dangosodd y staff clinigol y gwnaethom siarad â nhw ddealltwriaeth glir o'u cyfrifoldebau ac roeddent hefyd yn gwybod pryd i geisio cyngor proffesiynol perthnasol pe bai angen.

Gwelsom fod prosesau addas ar waith i gofnodi bod y cleifion yn deall y gweithdrefnau llawfeddygol ac yn cydsynio iddynt. Gwelsom ddefnydd priodol o restrau gwirio clinigol i atal achosion o dynnu'r dannedd anghywir.

Cofnodion cleifion

Gwelsom sampl o ddeg o gofnodion cleifion a gwelsom fod yr holl gofnodion yn cael eu cadw yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data ac yn cael eu goruchwyllo drwy ddilyn polisi rheoli cofnodion addas. Roedd y cofnodion a welsom yn rhoi darlun llawn o'r gofal a ddarperir i'r cleifion, gan gynnwys cofnodi profion sgrinio am ganser, archwiliadau y tu mewn a'r tu allan i'r geg a siartiau sylfaenol. Fodd bynnag, gwnaethom nodi mewn dau o'r tri chofnod a welsom lle roedd atgyfeiriadau wedi'u gwneud ei bod hi'n anodd dod o hyd i'r gwiriadau ar ôl atgyfeiriad yng nghofnodion y cleifion. Er y rhoddwyd sicrwydd i ni nad oedd unrhyw atgyfeiriadau wedi'u methu o'r cofnodion a welsom, gallai'r prosesau gynyddu'r risg o fethu atgyfeiriad ac o fethu â chwblhau cofnodion cleifion yn llawn. Gallai hyn olygu y byddai atgyfeiriadau o bosibl yn cael eu gwrthod neu eu dychwelyd a'u methu gan glinigwyr, a allai olygu na fyddai'r cleifion yn cael y gofal sydd ei angen arnynt. Er mwyn atal unrhyw bosibilrwydd o fethu atgyfeiriadau, cytunodd rheolwr y practis ar fesur sicrwydd ychwanegol ar ddiwrnod yr arolygiad i fonitro holl atgyfeiriadau'r practis bob wythnos. Ceir manylion am sut y cafodd y mater hwn ei ddatrys yn Atodiad A.

Effeithlon

Effeithlon

Gwelsom fod y clinigwyr yn darparu gwasanaeth boddhaol i ddiwallu anghenion eu cleifion ar safle addas. Roedd y cleifion yn symud yn effeithlon ar hyd llwybrau trin mewnol ac allanol. Gwelsom fod yr apwyntiadau hyn yn cael eu defnyddio'n effeithiol o ganlyniad i gymysgedd priodol o sgiliau a phroses trefnu apwyntiadau a brysennu gadarn.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Adborth gan staff

Dosbarthodd AGIC holiadur er mwyn casglu barn y staff ym Mhractis Deintyddol Trallwn, a chafwyd cyfanswm o chwe ymateb. Ar y cyfan, roedd yr ymatebion yn gadarnhaol gyda phob aelod o'r staff yn nodi y byddent yn argymhell y lleoliad fel lle da i weithio ynddo ac y byddent yn argymhell y lleoliad i aelodau o'u teulu. Roedd sylwadau'r staff yn cynnwys y canlynol:

“Yr amgylchedd mwyaf croesawgar a chyfeillgar i gleifion a staff.”

“Yn rhagweithiol wrth recriwtio. Tîm gweithgar.”

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac arweinyddiaeth

Nodwyd gennym fod strwythur rheoli clir ar waith er mwyn helpu i sicrhau bod y practis yn rhedeg yn effeithiol. Esboniodd rheolwr y practis ei fod yn teimlo ei fod yn cael ei gefnogi i gyflawni ei rôl arwain yn effeithiol, gan gynnwys cymorth cynhwysfawr gan ei gorff corfforaethol. Roedd rheolwr y practis yn cael cymorth goruchwylio clinigol gan ei gorff corfforaethol ac roedd trefniadau ar waith iddo weithio gyda phractisau eraill o fewn ei grŵp a chael cymorth ganddynt. Roedd cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal bob mis ac roedd pob aelod o'r staff yn bresennol ynddynt. Wrth edrych ar gofnodion y cyfarfodydd staff, gwelsom fod trafodaethau addas yn cael eu cynnal am drefniadau cynllunio ar gyfer trychinebau, iechyd a diogelwch, dechreuwyr newydd a chofnodion cleifion.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn frwdfrydig, yn wybodus ac yn cefnogi ei gilydd. Dywedodd y staff wrthym fod ganddynt hyder yn y rheolwyr ac y byddent yn gwybod â phwy i siarad pe bai angen help neu gymorth arnynt.

Roedd adnodd cydymffurfiaeth ar-lein yn cael ei ddefnyddio i nodi, cofnodi a rheoli'r risgiau, y materion a'r ffactorau lliniaru. Roedd y system hefyd yn cael ei defnyddio i fonitro a diweddarau polisiau a gweithdrefnau yn rheolaidd ac i rannu'r newidiadau hyn â'r staff. Dywedodd yr unigolion a ymatebodd i holiadur staff AGIC wrthym y byddent yn cael eu trin yn deg pe byddent yn rhoi gwybod am unrhyw bryderon neu ddigwyddiadau a bod y practis yn cymryd camau i sicrhau na fydd digwyddiadau yn digwydd eto.

Y Gweithlu

Gweithlu medrus a galluog

Gwnaethom nodi amgylchedd gwaith cadarnhaol yn y practis a gwelsom gydberthnasau gwaith da ymysg y staff. Roedd system briodol ar waith i sicrhau bod nifer addas o staff cymwysedig yn gweithio ar unrhyw adeg benodol. Dywedodd yr unigolion a ymatebodd i holiadur staff AGIC wrthym fod y practis yn cymryd camau cadarnhaol o ran iechyd a llesiant a bod eu patrwm gweithio presennol yn sicrhau cydbwysedd da rhwng bywyd a gwaith.

Nid oedd y practis yn defnyddio llawer o staff asiantaeth, ond roedd y prosesau a oedd ar waith i reoli staff asiantaeth yn briodol. Roedd y rhain yn cynnwys gwiriadau cadarn o'u cofrestriad proffesiynol, gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a gweithdrefnau sefydlu llawn.

Gwelsom fod trefniadau cynhwysfawr a chefnogol ar waith i sefydlu'r staff ac i sicrhau bod pob aelod o'r staff yn parhau i gael hyfforddiant hyd at lefel briodol ar gyfer ei rôl. Roedd y trefniadau hyn yn cynnwys rhoi amser i ffwrdd i'r staff er mwyn iddynt gwblhau hyfforddiant. Dywedodd pob aelod o'r staff a ymatebodd i holiadur AGIC wrthym eu bod wedi cael hyfforddiant priodol i gyflawni eu rôl.

Gwnaethom edrych ar 6 o'r 12 o gofnodion staff, a gwelsom gydymffurfiaeth lawn â'r holl ofynion o ran hyfforddiant gorfodol. Gwelsom hefyd enghreifftiau o arferion da, gydag aelodau unigol o'r staff yn cwblhau hyfforddiant ychwanegol perthnasol uwchlaw'r disgwyliadau gorfodol. Roedd system ddigidol addas a threfniadau cymorth cadarn ar waith i fonitro cydymffurfiaeth y staff â hyfforddiant a galluogi'r staff i gael hyfforddiant hyd at lefel briodol ar gyfer eu rolau.

Esboniodd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad y byddent yn gwybod beth i'w wneud a phwy i siarad â nhw pe byddai ganddynt bryder am y ffordd roedd y gwasanaeth yn cael ei ddarparu, triniaethau neu drefniadau rheoli. Roedd polisi chwythu'r chwiban ar waith i roi arweiniad ar sut y gall y staff godi pryderon.

Roedd trefniadau addas ar waith i fonitro a chynnal rhwymedigaethau proffesiynol y staff hynny a oedd yn gweithio yn y practis o'r adeg y gwnaethant ddechrau gweithio yno. Roedd pob un o'r cofnodion staff a welsom yn gwbl gyflawn, gan gynnwys cofrestriadau cyfredol â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, gwiriadau manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a gwiriadau geirdaon cyn cyflogi. Roedd y rheolwyr yn goruchwyllo'r prosesau ar gyfer sefydlu aelodau newydd o staff drwy bolisi recriwtio priodol a rhestr wirio fanwl ar gyfer y cyfnod sefydlu mewn modd cefnogol. Gwelsom dystiolaeth fod pob aelod o staff a oedd wedi bod yn ei swydd ers dros flwyddyn yn cael arfarniad blynyddol. Roedd rheolwr y practis yn trefnu arfarniad blynyddol i bob aelod newydd o staff ac roedd system addas ar waith i reoli cydymffurfiaeth yn hyn o beth.

Diwylliant

Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu

Roedd system addas ar waith ar gyfer casglu ac adolygu adborth gan gleifion. Gwelsom flwch argymhellion yn yr ardal aros ac roedd adolygiadau gwasanaeth cwsmeriaid hefyd yn cael eu hanfon at gleifion i'w cwblhau ar-lein ar ôl cael triniaeth. Roedd adborth yn cael ei adolygu yn rheolaidd gan reolwr y practis ac yn cael ei oruchwyllo gan ei gorff corfforaethol. Roedd ymatebion i adborth i'w gweld yn ardal y dderbynfa ar hysbysfwrdd 'dywedoch chi, gwnaethom ni' ac ar-lein. Rhoddwyd gwybod i ni fod arolygon cleifion blynyddol hefyd yn cael eu cynnal.

Roedd y polisi cwynion yn cyd-fynd yn llawn â gweithdrefnau Gweithio i Wella'r GIG ac roedd gwybodaeth amdano ar gael i'r cleifion yn yr ardal aros. Roedd y weithdrefn gwyno i gleifion yn cynnig pwynt cyswllt wrth wneud cwyn. Byddai unrhyw gwynion llafar yn cael eu cofnodi a'u rhannu â'r pwynt cyswllt ar gyfer cwynion mewn modd amserol i'w datrys. Roedd y dull o uwchgyfeirio cwyn wedi'i nodi yn y daflen gwyno i gleifion, gan gynnwys manylion cyswllt AGIC a'r gwasanaeth eirioli dros gleifion, Llais.

Dangosodd y staff y gwnaethom siarad â nhw ddealltwriaeth glir o'u cyfrifoldebau proffesiynol mewn perthynas â'r Ddyletswydd Gonestrwydd. Er nad oedd cofnodion o unrhyw gwynion diweddar na digwyddiadau yn ymwneud â'r Ddyletswydd Gonestrwydd, cawsom sicrwydd fod y prosesau a oedd ar waith yn gadarn.

Dysgu, gwella ac ymchwil

Gweithgareddau gwella ansawdd

Gwelsom fod dull rhagweithiol o wella ansawdd ar waith a bod yr holl weithgareddau gwella gorfodol yn cael eu cynnal. Roedd y rhain yn cynnwys archwiliadau cynhwysfawr a rheolaidd o gofnodion cleifion, rhagnodi gwrthficrobaidd, gwastraff gofal iechyd ac archwiliadau atal a rheoli heintiau. Roedd y practis yn defnyddio'r Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth er mwyn llywio gwelliannau parhaus. Roedd y practis hefyd yn archwilio meysydd eraill nad oedd yn orfodol eu harchwilio er mwyn gallu rhannu'r gwersi a ddysgwyd a darparu gofal diogel mewn ffordd well i gleifion.

Dull systemau cyfan

Gweithio mewn partneriaeth a datblygu

Esboniodd y staff sut roeddent yn cynnal cydberthnasau gwaith effeithiol â'r bwrdd iechyd lleol a gwasanaethau gofal sylfaenol eraill, gan gynnwys eu fferyllfa leol.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgysfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Gwnaethom nodi mewn dau o'r tri chofnod a welsom lle roedd atgyfeiriadau wedi'u gwneud ei bod hi'n anodd dod o hyd i'r gwiriadau ar ôl atgyfeiriad yng nghofnodion y cleifion.	Er y rhoddwyd sicrwydd i ni nad oedd unrhyw atgyfeiriadau wedi'u methu o'r cofnodion a welsom, gallai'r prosesau gynyddu'r risg o fethu atgyfeiriad ac o fethu â chwblhau cofnodion cleifion yn llawn. Gallai hyn olygu y byddai atgyfeiriadau o bosibl yn cael eu gwrthod neu eu dychwelyd a'u methu gan glinigwyr, a allai olygu na fyddai'r cleifion yn cael y	Cafodd y mater hwn ei uwchgyfeirio at reolwr y practis gan AGIC.	Er mwyn atal unrhyw bosibilrwydd o fethu atgyfeiriadau, cytunodd rheolwr y practis ar fesur sicrwydd ychwanegol ar ddiwrnod yr arolygiad i fonitro holl atgyfeiriadau'r practis bob wythnos.

	gofal sydd ei angen arnynt.		
--	--------------------------------	--	--

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Practis Deintyddol Trallwn

Dyddiad yr arolygiad: 18 Chwefror 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater		Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1.	Ni nodwyd unrhyw bryderon ychwanegol yn ystod yr arolygiad hwn.					

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Practis Deintyddol Trallwn

Dyddiad yr arolygiad: 18 Chwefror 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater		Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1.	Ni nodwyd unrhyw bryderon ychwanegol yn ystod yr arolygiad hwn.					